CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun, a drwy gyfrwng Zoom, nos Lun, 2 Hydref, am 7:30 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Shaun Williams a David Baker. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol, Sian E Thomas, Philip Burrows o Gyngor Sir Ddinbych tan 7.55pm a Peter Jones o Ysgol Llanfair ar Zoom tan 8:05pm.

Rhan 1

Dechreuodd y cyfarfod am 7:37pm.

1074. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1075. **Ymddiheuriadau** – derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Simon Knight Saunders, Ceri Ranson, Owen Evans, Eilir Jones a Hugh Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych.

1076. **Datgan buddiannau.** Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1077. **Cyflwyniad gan Peter Jones, Rheolwr Busnes Ysgol Llanfair.** Hysbysodd Peter y cyfarfod mai efwr cynhenid oedd yr efwr ar y llwybr nesaf at Ysgol Llanfair ac yr ymdriniwyd ag ef erbyn hyn. Esboniodd fod y tir dan berchnogaeth Cyngor Sir Ddinbych/yr ysgol a bod gwaith i'w wneud i'w wella. Bwriedir gadael y gris fel y mae a bydd giât yn cael ei osod ar y chwith a choed i'w plannu wrth ymyl y ffens, fydd yn ei gwneud yn haws torri'r gwrych. Holodd a oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i hynny. **Penderfynwyd:** nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan y Cyngor. Nid oedd unrhyw Gynghorwyr yn gwrthwynebu'r cynnig gan ei fod yn syniad da gwella'r llwybr gan y bydd aelodau'r gymuned yn ei ddefnyddio i fynd i Gae Llinos. Pwysleisiwyd y byddai'r gwrych yn cael ei dorri ar yr adegau priodol yn unig. Holodd y Cynghorwyr a fyddai'n modd plannu a phlygu'r gwrych i annog bywyd gwyllt? Roedd Peter o'r farn fod hynny'n syniad da ond nid oedd yn siwr pwy oedd yn berchen y gwrych. **Gweithred:** Y Cynghorydd Moulsdale i ganfod pwy sy'n berchen ar y gwrych. Gofynnodd y Cynghorydd Moulsdale a fyddai'n bosibl rhoi hysbysfwrdd y Cyngor ar ffens yr ysgol? **Gweithred:** Y Clerc i anfon neges e-bost at Peter ynghylch hynny.

1078. Anerchodd **Philip Burrows, Swyddog Digidol Cyngor Sir Ddinbych** y cyfarfod a dywedodd:

a. Mae cynllun gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o'r enw 'Prosiect Gigabit' wedi enwebu eiddo yn ardal Cyngor Cymuned Llanfair DC i'w tendro. Mae'r tendr yn mynd i'r holl ddarparwyr gwasanaethau ffôn a rhyngrwyd. Gobeithir y bydd Openreach yn cyflwyno dyfynbris ar gyfer rhai o'r 306 o eiddo yn eich ardal nad oes ganddynt gysylltiad ffibr. Mae angen i ni fwrw ymlaen fel arfer gan nad oes unrhyw warant a fydd yn cael ei osod drwy gyfrwng y cynllun hwn.
b. Mae'r cyllid Taleb Gigabit werth £4,500 i bob eiddo. Nid yw'r cynllun talebau yn derbyn ceisiadau ar y funud. Bydd yn ailagor unwaith y bydd Prosiect Gigabit wedi cyhoeddi lle y bydd yn gosod cysylltiadau ffibr. Mwy na thebyg mewn ychydig o fisoedd. Dylai fod ar agor erbyn yr adeg y bydd angen i ni wneud cais.
c. Mae tair cyfnewidfa yn gwasanaethu eich ardal Cyngor Cymuned. Mae'r eiddo hynny sy'n gysylltiedig â Chyfnewidfa Rhuthun mewn rhaglen uwchraddio. Mae Openreach yn addo galluogi rhoi cysylltiad ffibr i isafswm o 75% o eiddo yn yr ardal hon.
d. Mae llawer o eiddo yn eich ardal Cyngor Cymuned chi yn cael eu nodi fel bod yn cael eu hadolygu gan fod Openreach wedi mynegi diddordeb yn eu huwchraddio. Nid yw'r eiddo hyn yn gymwys ar gyfer Taleb Gigabit.
e. Nid yw'r eiddo sy'n gysylltiedig â chyfnewidefydd Llandegla a Chlawddnewydd yn cael eu nodi fel bod o dan adolygiad a dyma yw ein heiddo targed. Unwaith y bydd y Taleb Gigabit yn agor dylem fedru helpu'r eiddo sy'n gymwys.
f. Mae tua 467 eiddo yn ardal eich Cyngor Cymuned heb gysylltiad ffibr, y mwyafrif ohonynt yn y gogledd sy'n gysylltiedig â chyfnewidfa Rhuthun nes bo ardal y gyfnewidfa honno wedi'i chwblhau.
g. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn meddu ar gronfa o arian i osod cysylltiad ffibr i eiddo yng Ngogledd Cymru. Nid yw'n gwybod beth yw rhychwant y prosiect eto na pha eiddo fydd yn cael eu dewis. Maent yn gorfod aros nes bod Prosiect Gigabit yn cyhoeddi pa eiddo fydd yn cael y cysylltiad ffibr.
h. Mae grant sy'n cwmpasu cost prynu a gosod antena 4G a llwybryddion 4G. Mae'r antena yn allanol ac wedi'u gosod ar bolyn i'w galluogi i dderbyn gwell signal. Mae hyn wedi bod yn effeithiol mewn llawer o ardaloedd gwledig, gan roi cyflymder o rhwng 30 a 100 megabit yr eiliad. Mae'r grant hwn ar sail 'gwneud cais cyn i chi brynu.' Rwy'n hapus i sgwrsio ag unrhyw un o'ch trigolion neu fusnesau am hyn. Yn arferol rwy'n argymell 4G yn hytrach na diwifr sefydlog, yn aml mae gormod wedi tanysgrifio i'r diwifr sefydlog ac mae cyflymder y cysylltiad yn arafu.

1079. **Sesiwn Cyfranogiad y Cyhoedd**.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

1080. **Cytuno ar a llofnodi cofnodion y cyfarfod cyffredin a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023**

Yn dilyn ystyried y cofnodion cytunodd y Cyngor eu bod yn gofnodion cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

1081. **Materion yn codi o'r cofnodion**

a. Mae'r Clerc yn y broses o wirio pa bolisïau mae'r Cyngor angen eu mabwysiadu.
b. Mae'r Clerc yn disgwyl am adroddiad gan gwmni amgylcheddol lleol ynghylch arolwg ecolegol ar Gae Llinos.
c. Mae'r Clerc wedi cysylltu â Grŵp Llanfair FYW i'w hysbysu fod y Cyngor wedi ymdrin â'u pryderon a bod croeso iddynt ddod i unhyw un o gyfarfodydd y Cyngor.
d. Mae'r ymholiad gan y Cyngor i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch y glaswellt ar fin y ffordd yn flêr yng Nghraigfechan wedi'i drosglwyddo i'r adran berthnasol.
e. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi ymateb i gais y Cyngor am arwyddion yn Llanbenwch, ac anfonwyd e-bost atgoffa i Gyngor Sir Ddinbych.
f. Mae Asesiad Risg y Cyngor wedi'i uwchlwytho i'r wefan.
g. Diolchwyd i Mrs Fiona Faire am gynnal y cynwysyddion blodau yn Llanfair DC.
h. Gosodwyd arwydd ar y giât i Gae Llinos yn gofyn i gerbydau i beidio â pharcio o flaen y giât.
i. Roedd y Cynghorydd Dyfan Jones wedi ceisio cysylltu â'r preswylydd yng Nghae Mair am fater y tai fforddiadwy ond nid yw wedi llwyddo i gysylltu hyd yma.
j. Gofynnwyd i Pure Homes roi clo ar y tanc storio dŵr yng Nghae Mawr, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yma.
k. Roedd y Clerc wedi hysbysu Cyngor Sir Ddinbyh am y ddwy goeden wedi marw ger Cae Mair a chafodd yr ymateb isod:
Diolch yn fawr iawn i chi am eich neges e-bost. Rydw i eisoes yn cynnal trafodaeth gyda chynrychiolwyr Cae Mair ac wedi gofyn iddynt waredu'r ddwy goeden ffawydden nesaf at yr A525 fel mater o flaenoriaeth.
l. Ni dderbyniwyd unrhyw ateb gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch symud yr arwydd 40 milltir yr awr ger Llysfasi nac ynghylch y llwybr a'r giât mochyn ger Cae Mair.

1082. **Cynlluniau Hyfforddiant y Cynghorwyr**

Nodwyd fod Cynghorwyr yn parhau i wneud hyfforddiant ac fe'u hatgoffwyd i gysylltu â'r Clerc os oeddynt yn dymuno cael lle ar unrhyw gyrsiau.

1083. **Cae Chwarae Llanfair DC**

a. Grantiau
Nodwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau tri grant mewn tri mis i fwrw ymlaen efo'r prosiect. Dechreuwyd llenwi'r ffurflen gais am Grant Treftadaeth y Loteri, ynghyd â ffurflen gais i gael grant Symiau Cymudol.

b. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn barod i farchnata'r hen ysgol ac maent yn bwriadu gwneud hynny ar y cyd â gwerthu'r elusdenai gan Grŵp Cynefin. Unwaith y bydd yr eiddo ar y farchnad cynhelir cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Cyngor Cymuned.

c. Coed. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi caniatâd cynllunio i dorri'r goeden wernen â chlefyd arni a thacluso rhai o'r coed eraill. Mae'r Adran Cynllunio wedi cadarnhau y gall y Cyngor docio'r gwrychoedd ar ei ochr o'r cae. **Gweithred:** Y Clerc i ofyn i'r arbenigwr coed gyflawni'r gwaith. Gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych blygu'r gwrych ger y llwybr ceffylau, a chadarnhawyd nad oes angen caniatâd cynllunio i wneud y gwaith hwn.

d. Grant Cadw Cymru'n Daclus. Mae'r Cyngor wedi bod yn ffodus i dderbyn grant gan Cadw Cymru'n Daclus, yn dilyn proses gais drwyadl a llunio cynllun cynhwysfawr gan y arbenigwr garddwriaethol a'r Rheolwr Prosiect Cymunedol. **Gweithred:** Y Clerc i roi'r cynllun ar y wefan.

e. Rheoli'r Cae Chwarae. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd:** oedi'r Grŵp Rheoli nes bo'r offer wedi'i osod yn y cae. **Gweithred**: Y Cynghorydd Moulsdale i anfon neges e-bost at aelodau'r Grŵp.

1084. **Materion Priffyrdd a'r Amgylchedd**

a. **Pryderon am oryrru.**
Mynegwyd pryder fod mwy o geir yn defnyddio'r lonydd cul yn yr ardal yn lle defnyddio'r priffyrdd, yn dilyn cyflwyno'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr.

b. Trafododd y Cynghorwyr y llwybr o Lanfair DC i Rhuthun a hoffent weld mwy o gyllid yn cael ei neilltuo i annog cludiant weithredol yn yr ardal hon. Yn anffodus mae amser y Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar Gae Llinos yn ddiweddar, ond mae'r Cynghorwyr yn awyddus i fynd i'r afael â gwelliannau i'r llwybr hwn.

c. Yn dilyn pryderon ynghylch y terfyn cyflymder 20 milltir yr awr mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud y bydd yn cynnal sampl o arolygon cyflymder mewn lleoliadau lle roedd ganddynt ddata cyflymder eisoes (cyn cyflwyno'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr), fel y gallant fonitro ei effaith ar gyflymder y traffig. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu mynd ag adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mai neu fis Mehefin 2024 i roi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar effaith y terfyn cyflymder 20 milltir yr awr. Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth o'r arolygon cyflymder 'cyn ac ar ôl' y terfyn cyflymder newydd, ffigurau am nifer yr ymholiadau gan gwsmeriaid, eithriadau ychwanegol ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu y bwriad yw cyflwyno adroddiad i sesiwn Briffio'r Cabinet a chyfarfod y Cabinet i roi diweddariad a chytuno ar restr o eithriadau ychwanegol i'w cyflwyno.
d. Mae'r Cynghorydd Mayers wedi hysbysu Cyngor Sir Ddinbych ddwywaith nad yw'r arwyddion 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn wedi'u newid i arwyddion 20 milltir yr awr, ond nid yw wedi derbyn ateb.

1085. **Materion Cyllid**

a. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad am y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol.

b. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol restr taliadau mis Medi 2023 a chytunodd y Cynghorwyr i wneud yr holl daliadau.

07/09/2023	Keith Moulsdale	£29.32	Deunyddiau i drwsio'r hysbysfwrdd - Rightway Ltd
07/09/2023	Keith Moulsdale	£13.49	Deunyddiau i drwsio'r hysbysfwrdd - Amazon
07/09/2023	Keith Moulsdale	£62.98	Deunyddiau i drwsio'r hysbysfwrdd - MKM
07/09/2023	Keith Moulsdale	£3.60	Deunyddiau i drwsio'r hysbysfwrdd - Morgans
09/09/2023	Sian E Thomas	£143.88	Ad-daliad ffi blynyddol Zoom
18/09/2023	AVOW	£628.20	Cyflog y Clerc mis Medi, treuliau mis Awst a chostau cyflogres
21/09/2023	HSBC	£5.00	Ffi bancio mis Awst 2023
		£886.47	

c. Bancio Moesegol
Gan fod y Cyngor yn gweithio tuag at fod mor gynaliadwy ag y bo modd, cytunodd y Cyngor i ystyried bacio gydag Unity Trust Bank .
Gweithred: Y Cynghorwyr i edrych ar y wybodaeth a ddarparwyd a rhoi adborth i'r Clerc.

d. Cynigiwyd rhoi cyfraniad o £200 i'r Lleng Brydeinig gan na wnaed cyfraniad y llynedd. **Gweithred:** Y Clerc i drosglwyddo'r cyfraniad ac archebu'r dorch ar gyfer eleni.

1086. **Cynllunio**
Cyfeirnod: 20/2023/0641 Hirdir, Pentrecelyn
Penderfynwyd: peidio â gwrthwynebu'r cynlluniau diwygiedig.

1087. **Gohebiaeth i'w adolygu**

a. Nodwyd gwybodaeth am waith trwsio'r ffyrdd yn lleol.
b. Nodwyd bod ymgynghoriad ynghylch sefydlu Parc Cenedlaethol yn cael ei gynnal ar Teams fis nesaf. **Gweithred:** Y Clerc i roi'r datganiad i'r wasg ar y wefan.
c. Bydd Holiadur Cynllunio Strategol Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei roi ar y wefan hefyd.
d. Bydd digwyddiad yn cael ei gynnal ar y cyd gan Un Llais Cymru a SLCC ar 8 Tachwedd.

1088. **Eitemau y tynnwyd sylw Cynghorwyr atynt**

a. Mae'r Grŵp sy'n dymuno atal y Three Pigeons yng Nghraigfechan rhag cau wedi cysylltu â'r Aelodau Senedd ac wedi derbyn cymorth gan Carolyn Thomas. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau y bydd yn cefnogi'r ymgyrch i gadw'r dafarn ar agor.
b. Mae'r Cynghorydd Shaun Williams yn mynd i ofyn i Gyngor Sir Ddinbych roi arwyddion ar yr A525 ger Coleg Llysfasi i ddynodi bod gwartheg yn croesi'r ffordd a bod llawer o dractorau yn yr ardal.
c. Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod fod y padiau yn y diffibrilyddion yn yr ardal wedi darfod a'i bod wedi rhoi padiau newydd ymhob un. **Gweithred:** Y Clerc i anfon neges e-bost i Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair i'w hysbysu y bydd angen newid padiau'r diffibrilyddion ym mis Chwefror 2024 ac os oes angen adnewyddu'r batris gwnaiff y Cyngor Cymuned dalu amdanynt.

1089. Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar 30 Hydref yng Ngholeg Llysfasi am 7:30pm.

1090. **Penderfynwyd: Symud i Ran 2 ar gyfer yr eitem hon yn y cyfarfod, gan eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd.**

1091. **Dyfynbrisiau Offer y Cae Chwarae**
Dim ond un dyfynrbis sydd wedi'i gyflwyno hyd yma. Cytunwyd bod y cynllun yn un rhagorol ond y dylid aros am ddyfynrbrisiau gan ddau gwmni arall, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor. Os na ddaw'r

dyfynbrisiau eraill yna bydd y Clerc yn hysbysu'r prosiect ar Gwerthwch i Gymru.

Gorffennodd y cyfarfod am 9:25pm.

CADEIRYDD DYDDIAD

_____ _____